

Jenny Williams  
Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol  
ac Addysg  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Coed Pella  
Conway Road  
Bae Colwyn  
LL29 7AZ

Dyddiad: 04 Dachwedd 2021

Annwyl Gyfarwyddwr,

## **Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – Archwiliad Sicrwydd 2021: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau ein archwiliad sicrwydd a gynhaliwyd rhwng 7 a 11 Mehefin 2021. Diben y archwiliad sicrwydd hwn oedd gweld pa mor dda y mae gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant.

Roedd ein prif lwybrau ymholi yn seiliedig ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac rydym wedi cofnodi ein barn a'n canfyddiadau yn unol â'r rhain, sef Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Llesiant, Partneriaethau ac Integreiddio.

### **Trosolwg**

Ym mis Mawrth 2020, gohiriodd AGC ei rhaglen arferol mewn ymateb i bandemig COVID-19 er mwyn galluogi darparwyr ac awdurdodau lleol i ganolbwyntio'n llawn ar ymateb i'r amgylchiadau heriol. Ailddechreuodd rhaglen ddiwygiedig gydag awdurdodau lleol ym mis Medi er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch sut mae pobl yn cael eu diogelu a sut mae eu llesiant yn cael ei hybu yn ystod y pandemig. Gwnaethom ystyried diogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, neu y gall fod angen iddynt eu defnyddio, diogelwch y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio a diogelwch a llesiant y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau hynny. Roedd ein prif lwybrau ymholi yn seiliedig ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac rydym wedi cofnodi ein barn a'n canfyddiadau yn unol â'r rhain, sef: Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Partneriaethau ac Integreiddio, Llesiant.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)  
Swyddfa Llywodraeth Cymru  
Sarn Mynach  
Cyffordd Llandudno  
LL31 9RZ  
[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

☎ 0300 790 0126  
✉ [CIW@gov.wales](mailto:CIW@gov.wales)

Care Inspectorate Wales (CIW)  
Welsh Government Office  
Sarn Mynach  
Llandudno Junction  
LL31 9RZ  
[www.careinspectorate.wales](http://www.careinspectorate.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## **Gwnaethom ganolbwyntio ar y canlynol:**

1. Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei swyddogaethau statudol o ran cadw pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yn ddiogel, a hybu eu llesiant, yn ystod y pandemig?
2. Beth mae'r awdurdod lleol yn ei wneud fel nad oes angen i blant dderbyn gofal; ac a yw plant yn dychwelyd adref i'w teuluoedd yn ddigon cyflym, lle mae'n ddiogel iddynt wneud hynny?

## **Crynodeb o'r canfyddiadau a blaenoriaethau ar gyfer gwella:**

**Pobl – llais a rheolaeth – Gwnaethom ofyn:** Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod lleisiau pobl, gofalwyr ac ymarferwyr yn cael eu clywed, eu bod yn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth ac yn cynnal rheolaeth dros eu bywydau, gan gydbwyso hefyd yr argymhellion a'r gofynion a wnaed gan lechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn cyfyngu ar ledaeniad COVID-19?

Mae gan bobl lais cryf a rheolaeth dros y cymorth a gânt, ac mae'r ymarfer yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolion, y canlyniadau y maent am eu cyflawni, a'r ffordd y gallant ddefnyddio eu cryfderau a'u hadnoddau eu hunain i hybu eu llesiant.

Mae'r awdurdod lleol yn ymdrin â'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg mewn modd rhagweithiol, ac yn casglu gwybodaeth am ddewis iaith pob unigolyn o'r cychwyn cyntaf. Gwelsom fod asesiadau'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn unol â dymuniadau'r bobl.

Caiff yr angen am eiriolaeth ei gydnabod. Gwelsom dystiolaeth yn yr achosion a welwyd fod pobl yn cael eu cefnogi gan eiriolwyr ffurfiol ac anffurfiol. Clywsom am gynlluniau'r awdurdod lleol i gyflwyno ap newydd o'r enw Mind of My Own er mwyn gwella'r ffordd y mae'n cyfathrebu ymhellach a chynnig ffordd arall i blant a phobl ifanc gyfathrebu.

Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff pob asesiad o alluedd meddyliol ei gwblhau yn unol â chanllawiau statudol. Mae'r ymarferwyr yn ystyried galluedd meddyliol pobl i gymryd rhan yn eu hasesiadau, yn y gwaith o gynllunio eu gofal a'u cymorth, ac mewn ymholiadau diogelu. Fodd bynnag, mewn rhai o'r achosion a welwyd, lle y dyfarnwyd nad oedd gan bobl alluedd meddyliol, gwelsom nad oedd y rhesymeg dros y penderfyniad bob amser wedi cael ei chofnodi. Roedd y rheolwyr eisoes wedi nodi hyn fel maes i'w wella yn ystod archwiliadau diogelu a gynhaliwyd yn ddiweddar.

Roedd y bobl, gan gynnwys gofalwyr, yn cael cyfle i deilwra a rheoli eu gofal a'u cymorth eu hunain drwy ddefnyddio taliadau uniongyrchol. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod taliadau uniongyrchol yn gweithio'n dda i unigolion a gofalwyr o ran cyflawni'r canlyniadau a

ddymunir. Defnyddiwyd taliadau uniongyrchol mewn modd creadigol yn ystod y pandemig fel dull o ddarparu gofal seibiant amgen.

Cydnabuwyd y pwysau ychwanegol ar ofalwyr yn ystod y pandemig. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod anghenion gofalwyr yn cael eu hystyried a'u cefnogi'n briodol ochr yn ochr ag anghenion yr unigolyn sy'n derbyn gofal. Roedd yr asesiadau a welsom yn ystyried i ba raddau y gall y gofalwr ddarparu gofal, a pharhau i ddarparu gofal, ac i ba raddau y mae'n fodlon gwneud hynny; y canlyniadau roedd y gofalwr am eu cyflawni; ac i ba raddau y gellid helpu gofalwyr i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd drwy ddarparu cefnogaeth, gwasanaethau ataliol neu wybodaeth, cyngor a chymorth. Roedd y gofalwyr a'r teuluoedd y gwnaethom siarad â nhw yn gwerthfawrogi'r cymorth roeddent yn ei gael gan yr awdurdod lleol, a'r cydberthnasau roeddent wedi'u meithrin ag ymarferwyr unigol.

Mae'r awdurdod lleol wedi ymateb i'r heriau a wynebwyd yn sgil y pandemig mewn modd rhagweithiol. Rhoddwyd systemau ar waith yn gyflym i gefnogi mwy o weithio ystwyth a gweithio o bell, lle y bo'n bosibl. Mae'r awdurdod lleol wedi cadw mewn cysylltiad â phobl mewn modd diogel drwy gydol y pandemig. Yn ôl yr angen, mae cyswllt wyneb yn wyneb diogel uniongyrchol wedi parhau, yn amodol ar asesiadau risg, ac mae'r staff wedi cael lefelau priodol o gyfarpar diogelu personol. Gwelsom enghreifftiau o staff a darparwyr yn gweithio'n greadigol i gyflawni eu cyfrifoldebau proffesiynol.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymarferwyr a ymatebodd i'n harolwg yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu cydweithwyr a'u rheolwyr ac roeddent o'r farn eu bod yn gallu ymdopi â'u llwyth gwaith. Gwelsom fod y gweithlu yn wybodus, yn ymroddedig, ac yn canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau cadarnhaol i bobl. Dywedodd yr ymarferwyr eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod y rheolwyr yn gefnogol ac yn hawdd mynd atynt. Mae dysgu a datblygu wedi parhau o bell yn bennaf, a chlywsom am brofiadau cadarnhaol am y sesiynau sefydlu a'r cymorth i staff newydd gymhwyso.

Mae'r rheolwyr yn cynnal gweithgareddau sicrhau ansawdd gwaith, ac roedd yn galonogol gweld dull clir o archwilio gwaith achos a rhannu'r gwersi a ddysgwyd.

**Atal – Gwnaethom ofyn:** I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn llwyddo i hyrwyddo prosesau atal a lleihau'r angen am fwy o gymorth neu gymorth ffurfiol gan asiantaethau statudol?

Er bod y patrymau gwaith niweidiol a welwyd mewn ymateb i'r pandemig wedi creu heriau, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn parhau i weithio'n galed i sicrhau bod atal yn rhan annatod o'i waith. Mae ymdrechion i drawsnewid a sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau yn unol â deddfwriaeth ac anghenion y gymuned wedi parhau.

Mae'r uwch-reolwyr yn canolbwyntio ar nodi cyfleoedd i ddefnyddio cyllid trawsnewid i ysgogi rhagor o waith integreiddio, yn ogystal â datblygu modelau gofal a chymorth newydd i wella canlyniadau pobl. Mae gwaith i ddatblygu'r gwasanaeth llety wedi parhau. Er

enghraifft, datblygwyd Canolfan Asesu Bwthyn y Ddôl i blant a Chyfleuster Seibiant Bron y Nant mewn ymateb i'r cynnydd yn nifer y bobl ag anabledau y mae angen seibiant ar eu gofalwyr yn rheolaidd.

Yn gyffredinol, wrth adolygu'r ffeiliau achos, gwelsom ymyriadau amserol a chymesur er mwyn helpu i osgoi'r angen i uwchgyfeirio anghenion a risgiau, gan ystyried dymuniadau unigol. Dywedodd yr ymarferwyr o wasanaethau oedolion a gwasanaethau plant fod adnoddau gofal llai dwys a chymunedol ar gael i gefnogi llesiant a diogelwch y bobl; roedd hyn yn amlwg yn yr achosion a welsom.

Mae'r awdurdod lleol wedi llunio tudalen diogelwch ar y rhyngwyd sy'n canolbwyntio ar gefnogi rhieni i wybod am y risgiau i blant, yn ogystal â'u diogelwch wrth ddefnyddio'r rhyngwyd. Mae'r gwaith hwn yn bwysig o ystyried bod y mater hwn wedi bod yn destun pryder cynyddol yn ystod y pandemig.

Mae gan yr awdurdod lleol boblogaeth sefydlog o blant sy'n derbyn gofal. Mae gan yr uwchreolwyr a'r swyddogion ddealltwriaeth dda o broffil y plant sy'n derbyn gofal, a gwybodaeth dda amdano. Mae gan yr awdurdod lleol ymrwymiad cryf i'r agenda ataliol, ac i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn ffordd ddiogel. Mae'r awdurdod lleol, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), wedi buddsoddi yn y Tîm Cryfhau Teuluoedd. Clywsom am y ffordd y mae'r tîm yn nodi'r cymorth cywir a'r ymyriadau sydd eu hangen i wella diogelwch, gwydnwch a galluedd rhianta, a thrwy hynny, atal y risg y bydd plant yn dod yn rhan o'r system ofal. Clywsom am y cymorth cadarnhaol gan Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), wrth weithio gyda phobl ifanc a theuluoedd i atal teuluoedd rhag chwalu. Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi bod yn gweithio i sicrhau cymorth gwell i blant sy'n derbyn gofal drwy gymorth gan seicolegwyr clinigol a thrwy ganolbwyntio ar integreiddio a chydweithio ar draws gwasanaethau. Mae hyn wedi arwain at ddealltwriaeth well o ofal a chymorth ym mhob rhan o'r gwasanaethau cymdeithasol a CAMHS.

Mae'r awdurdod lleol yn deall pa mor bwysig yw ymyriadau amserol a rhyddhau cleifion o'r ysbyty mewn modd amserol, ac mae'r rhain yn parhau i fod yn flaenoriaeth iddo. Mae'r her o ddarparu a chomisiynu gofal cartref i oedolion yn parhau i gael ei rheoli'n dda yng Nghonwy. Mae pobl yn cael gwasanaethau ail-alluogi a pheynnau gofal a chymorth mewn modd amserol, ac mae hyn yn cefnogi eu llesiant ac yn eu helpu i adfer yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty, yn ogystal â sicrhau nad oes angen i rai gael eu derbyn i'r ysbyty.

**Partneriaethau ac Integreiddio – Gwnaethom ofyn:** I ba raddau y gall yr awdurdod lleol fodloni ei hun yr achubir ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth mewn ffordd gadarnhaol er mwyn gwneud y mwyaf o gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sicrhau y darperir gwasanaethau integredig mewn modd cynaliadwy?

Roedd partneriaethau'n gweithio'n dda ar bob lefel ac yn darparu dull cynaliadwy integredig o ddiwallu anghenion a hybu llesiant yn unol â deddfwriaeth.

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod yr ymarferwyr yn meithrin cydberthynas waith broffesiynol â phobl ar sail cydweithrediad a dealltwriaeth a rennir o'r hyn sy'n bwysig. Un enghraifft o hyn oedd gwydnwch yr ymarferwyr yn ystod ymholiadau diogelu oedolion, wrth iddynt weithio i ymgysylltu â phobl ag amgylchiadau cymhleth er mwyn cael sicrwydd eu bod yn ddiogel.

Mae gan y rheolwyr a'r ymarferwyr gydberthnasau gweithredol sefydledig â gweithwyr iechyd, yr heddlu, y sector addysg, darparwyr a'r trydydd sector. Gwelsom ymrwymiad clir i gydweithio. Clywsom am y ffordd yr oedd cydberthnasau wedi cael eu meithrin ymhellach yn ystod y pandemig, gan arwain at ymateb mwy ystwyth i anghenion cymorth newidiol plant, pobl ifanc, oedolion a'u teuluoedd. Mae'r defnydd cynyddol o lwyfannau digidol wedi golygu bod asiantaethau'n cyfrannu'n fwy effeithiol at gyfarfodydd statudol.

Gwelsom enghreifftiau cadarnhaol o ddull amlasiantaethol o reoli risgiau, yn ogystal ag ymarferwyr a rheolwyr yn cydweithio yn ystod y pandemig i rannu gwybodaeth/cuddwybodaeth. Roedd hyn yn golygu bod gweithwyr proffesiynol yn gwneud cyfraniad sylweddol at sicrhau bod anghenion, risgiau a diogelwch pobl ag anghenion cymhleth yn cael eu hystyried.

Siaradodd y darparwyr yn gadarnhaol am y cymorth roeddent wedi'i gael gan yr awdurdod lleol yn ystod y pandemig. Roeddent yn gwerthfawrogi lefel y cyfathrebu ac ansawdd y cyngor a'r cymorth a gafwyd.

Roedd y dull gweithredu strategol a roddwyd ar waith gan yr awdurdod lleol yn ystod y pandemig wedi hwyluso gwaith cydweithredol wedi'i dargedu ar draws portffolios a gwasanaethau. Ym maes gwasanaethau plant, gwelsom gydberthynas waith effeithiol â'r sector addysg er mwyn nodi'r plant mwyaf agored i niwed a darparu'n briodol ar eu cyfer yn ystod y pandemig. Gwelsom bartneriaid yn gweithio'n greadigol, gan ddefnyddio meysydd chwarae ysgolion a oedd wedi cau a Chastell Conwy i ddarparu gweithgareddau i blant a chefnogi teuluoedd nad oedd ardaloedd awyr agored ar gael yn hawdd iddynt yn ystod y cyfnod clo.

**Llesiant – Gwnaethom ofyn:** I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn hybu llesiant, gan sicrhau bod pobl yn aros yn ddiogel ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol sydd o bwys iddynt?

Mae'r awdurdod lleol wedi arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac mae'n sicrhau ei fod yn cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalu'r y mae angen cymorth arnynt. Mae ymrwymiad clir a chymorth gwleidyddol ar gyfer gwasanaethau oedolion a gwasanaethau plant a dealltwriaeth dda o'u cryfderau a'u heriau presennol.

Mae'r awdurdod lleol wedi mabwysiadu dull rhagweithiol ac arloesol o hybu llesiant pobl. Yn ystod y archwiliad sicrwydd, rhannwyd llawer o enghreifftiau cadarnhaol o'r ffordd yr oedd y

bartneriaeth wedi ymateb i'r pandemig, gan gynnwys hybu llesiant pobl drwy fenthycu iPads i bobl mewn cartrefi gofal i'w galluogi i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd/ffrindiau yn ogystal â'u helpu i gadw mewn cysylltiad â gweithwyr gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol proffesiynol.

Roedd y rhan fwyaf o'r asesiadau a welsom yn seiliedig ar gryfderau, gan ganolbwyntio ar yr hyn a oedd yn bwysig i'r unigolyn a'r canlyniadau yr oedd am eu cyflawni. Roeddent wedi'u strwythuro o amgylch y pum elfen asesu ac yn seiliedig ar sgysiau rhwng yr unigolyn, y gofalwr/y teulu ehangach a'r ymarferwyr.

Ar adeg yr arolygiad o wasanaethau plant anabl a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2019, roedd y gwaith o sicrhau bod y templedi cofnodi a'r fformatau adrodd yn adlewyrchu gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn flaenoriaeth i'r uwch-reolwyr, wrth i'r awdurdod lleol baratoi i roi System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru ar waith. Rhoddwyd y system newydd ar waith ym mis Tachwedd 2020, a gwelsom dystiolaeth i ddangos gwelliant sylweddol yn yr achosion dan sylw, a bod y templedi cofnodi bellach yn adlewyrchu gofynion y Ddeddf yn gyson. Yn y rhan fwyaf o'r achosion, roedd dadansoddiad yr ymarferwyr yn glir ac yn benodol, gyda chydbwysedd da o wybodaeth a oedd yn gymesur â'r amgylchiadau.

Roedd amseroldeb ac ansawdd yr adolygiadau statudol a welsom yn dda. Ym maes gwasanaethau plant, roedd cofnodion a llythyrau'n cael eu llunio i'r plentyn yn uniongyrchol, ac roeddent yn cydnabod dymuniadau'r plentyn ac yn esbonio canlyniadau a phenderfyniadau ei adolygiad mewn iaith syml. Mae swyddogion adolygu annibynnol yn cysylltu â phlant cyn yr adolygiad, ac yn cynnal gwiriadau canol cyfnod o gynnydd. Caiff achosion eu huwchgyfeirio yn ôl yr angen, ond mae'r cydberthnasau rhwng gweithwyr proffesiynol yn cefnogi atebion adeiladol. Ym maes gwasanaethau oedolion, gwelsom fod y rhan fwyaf o'r adolygiadau yn amserol, yn cynnwys y bobl gywir, ac yn cael eu cofnodi'n dda.

Gwelsom fod ymholiadau ac ymchwiliadau diogelu yn cael eu cynnal yn unol â gofynion statudol, ac yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol i'r bobl. Dywedodd y rheolwyr a'r ymarferwyr eu bod yn hyderus bod plant yn yr awdurdod yn ddiogel. Roedd tystiolaeth o hyn yn y ffeiliau a welsom. Lle roedd plant yn wynebu risg o niwed sylweddol, roedd yr ymateb yn amserol ac yn effeithiol. Roedd yr ymholiadau a welwyd mewn perthynas ag adran 47 yn dangos bod prosesau casglu gwybodaeth da ar waith, ac roedd tystiolaeth i ddangos bod plant yn cael eu gweld/eu gweld ar eu pen eu hunain fel y bo'n briodol ar bob cam o'r ymholiad.

Drwy adolygu ffeiliau achos a thrafod â'r ymarferwyr, cawsom sicrwydd bod yr awdurdod lleol yn ymateb i adroddiadau diogelu oedolion mewn modd amserol a chymesur. Caiff yr adroddiadau eu sgrinio, ac roedd y rhan fwyaf o'r ymholiadau a welsom wedi cael eu cynnal yn unol â gofynion statudol ac roedd y dadansoddiad a'r penderfyniad wedi'u cofnodi yn glir. Roedd y bobl gywir yn cymryd rhan mewn trafodaethau a chyfarfodydd diogelu, a gwelsom

dystiolaeth o gydberthnasau gwaith da â phartneriaid allweddol, gan gynnwys yr heddlu a Thîm Diogelu BIPBC.

#### **Dull:**

- gwnaethom fwrw golwg dros y ddogfennaeth a ddarparwyd cyn ein hymweliad
- gwnaethom siarad â gofalwyr a phobl a oedd yn derbyn, neu wedi derbyn, gofal a chymorth
- gwnaethom edrych ar 26 o ffeiliau achos
- gwnaethom gynnal trafodaethau olrhain achosion ar 10 o ffeiliau achos pellach
- gwnaethom gynnal pum grŵp ffocws
- gwnaethom gynnal wyth arolwg

#### **Y Camau Nesaf**

Rydym wedi nodi cryfderau a byddwn yn parhau i fonitro perfformiad yr awdurdod lleol drwy ein cyfarfodydd gwerthuso perfformiad â'r penaethiaid gwasanaeth a'r cyfarwyddwr. Hoffem ddiolch i bawb a wnaeth ein helpu i gynnal y archwiliad sicrwydd hwn ac i'r bobl a'r staff hynny a siaradodd â ni.

Gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd yn <https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol>

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**

Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

**Arolygiaeth Gofal Cymru**